



Comisiwn
**Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol**

Prydain a'r Confensiwn yn erbyn Artait

—

Cyflwyniad dilynol i Bwyllgor y
CU yn erbyn Artait

Tabl Cynnwys

1. Rôl y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a chwmpas y cyflwyniad hwn.....	1
2. Atebolrwydd am unrhyw artaith a chamdriniaeth a gyflawnir gan bersonél y Deyrnas Unedig yn Irac o 2003 i 2009	3
2.1 Honiadau o gam-drin gan filwyr Prydeinig dramor	4
2.2 Cydgynllwynio yng nghamdriniaeth carcharorion llywodraethau eraill	9
2.3 Canllawiau wedi'u cydgrynhai	10
2.4 Argymhellion	11
3. Rhoi'r Arsyllwadau Terfynol ar waith yn gyffredinol.....	13
3.1 Mekanwaith Cenedlaethol ar gyfer Gweithredu, Adrodd a rhoi Camau Dilynol ar waith.....	13
3.2 Ein hymagwedd.....	15
3.3 Argymhellion	16
Cysylltiadau	17
Gwasanaeth Cyngori a Chymorth Cydraddoldeb (EASS).....	17

1. Rôl y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a chwmpas y cyflwyniad hwn

Sefydlwyd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) gan Senedd y DU trwy Ddeddf Cydraddoldeb 2006 fel corff annibynnol â mandad sy'n cwmpasu cydraddoldeb a hawliau dynol. Ymhlith cyfrifoldebau hawliau dynol eraill, rydym yn gyfrifol am 'annog arferion da mewn perthynas â hawliau dynol'. Mae ein cylch gwaith ar gyfer hawliau dynol yn cwmpasu materion yng Nghymru a Lloegr, a'r materion hynny yn yr Alban sydd wedi'u neilltuo i Senedd y DU.

Mae ein rôl fel Sefydliad Hawliau Dynol Cenedlaethol (NHRI) yn ei gwneud yn ofynnol inni asesu ac adrodd ar gynnydd y DU wrth gyflawni'r rhwymedigaethau o ran hawliau dynol. Rydym yn gweithio â sefydliadau Hawliau Dynol Cenedlaethol eraill (NHRIau) yn y DU – Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban (SHRC) a Chomisiwn Hawliau Dynol Gogledd Iwerddon – ac yn cysylltu ag adrannau ac asiantaethau'r llywodraeth i gyflawni'r rôl hon. Mae'r tri NHRI fel ei gilydd yn dal achrediad 'Statws A' â'r Cenhedloedd Unedig.

Cyflwyniad dilynol yw'r ddogfen hon ynghylch yr Arsylwadau Terfynol a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor yn erbyn Artaith ('y Pwyllgor') ar chweched adroddiad cyfnodol y DU.¹ Gofynnodd Arsylwadau Terfynol y Pwyllgor i'r Wladwriaeth sy'n barti ddarparu gwybodaeth ar yr argymhellion a nodwyd ynghylch gweithredu dilynol. Bwriedir i'r cyflwyniad hwn ddarparu gwybodaeth ar gyfer y Pwyllgor. Mae'n darparu ein hasesiad o gynnydd Llywodraethau Cymru a'r DU tuag at roi'r Arsylwadau Terfynol ar waith.

¹ [Pwyllgor yn erbyn Artaith \(2019\), 'Concluding observations on the sixth periodic report of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland', CAT/C/GBR/CO/6 \[agorwyd: 11 Mai 2020\].](#)

Yn y cyflwyniad hwn, rydym yn canolbwyntio ar ddatblygiadau a thystiolaeth sydd wedi dod i'r amlwg ers mabwysiadu'r Arsywadau Terfynol fis Mai 2019 ac sy'n berthnasol i rai materion pwysig y mae'r Pwyllgor wedi eu dynodi. Rydym yn dangos lle mae cynnydd wedi'i wneud, yn dwyn sylw at y prif bryderon neu heriau rydym wedi'u nodi, ac yn gwneud argymhellion i Lywodraethau Cymru a'r DU.

Mae'r cyflwyniad hwn yn canolbwyntio ar:

- atebolrwydd am unrhyw artait a chamdriniaeth sy'n cael ei gyflawni gan bersonél y DU yn Irac o 2003 i 2009, a
- rhoi'r Arsywadau Terfynol ar waith yn gyffredinol.

Er bod ein ffocws yn y cyflwyniad hwn wedi'i gyfyngu i'r meysydd a enwyd uchod, rydym yn cydnabod pwysigrwydd cyfartal pob argymhelliad a amlinellir yn Arsywadau Terfynol y Pwyllgor. Rydym yn annog Llywodraeth y DU i roi pob un o'r rhain ar waith yn gyflawn ac yn ddi-oed.

2. Atebolrwydd am unrhyw artaith a chamdriniaeth a gyflawnir gan bersonél y Deyrnas Unedig yn Irac o 2003 i 2009

Yn ei Arsylwadau Terfynol yn 2019, anogodd Pwyllgor y DU i 'gymryd pob mesur angenrheidiol i ddarganfod pwy oedd yn gyfrifol a sicrhau atebolrwydd am unrhyw artaith a chamdriniaeth a gafodd ei gyflawni gan bersonél y Deyrnas Unedig yn Irac o 2003 i 2009, yn benodol trwy sefydlu un ymchwiliad annibynnol a chyhoeddus i edrych i mewn i honiadau o ymddygiad o'r fath.'²

Dywedodd y Pwyllgor hefyd y dylai'r DU 'beidio â sefydlu deddfwriaeth a fyddai'n caniatáu amnest neu bardwn mewn achos o artaith' a 'dylai sicrhau bod holl ddiodefwr yr artaith a chamdriniaeth o'r fath yn cael iawndal.'³

Yn ei gais am wybodaeth ddilynol gan y Wladwriaeth sy'n barti, apeliodd y Pwyllgor yn benodol am fanylion gweithredoedd y DU yn hyn o beth. Mae'r cyflwyniad canlynol yn amlinellu tri phrif faes pryder o'n safbwynt ni.

² [Committee against Torture \(2019\), 'Concluding observations', paragraff 33.](#)

³ [Ibid.](#)

2.1 Honiadau o gam-drin gan filwyr Prydeinig dramor⁴

Mae graddau camdriniaeth personél lluoedd Prydain o ddinasyddion Irac rhwng 2003 a 2009 yn parhau i fod yn anhysbys. Agorodd Tîm Honiadau Hanesyddol Irac (IHAT) dros 3,000 o achosion lle roedd honiadau o gam-drin, ond nid arweiniodd y rhain at unrhyw erlyniadau.⁵ Yn dilyn cau IHAT yn 2017, aseiniwyd yr achosion a oedd yn weddill i Archwiliadau Etifeddol Heddlu'r Gwasanaethau Arfog (SPLI).⁶ Ar 31 Rhagfyr 2019 roedd y SPLI wedi cau, neu roedd wrthi'n cau 1,198 o honiadau, ac roedd 82 o honiadau ar ôl i'w hystyried.⁷ Gwnaed cannoedd o honiadau sifil yn y llysoedd Prydeinig hefyd bod personél lluoedd arfog Prydain wedi cam-drin dinasyddion Irac, ac mae adroddiadau bod y Weinyddiaeth Amddiffyn wedi talu dros £20 miliwn mewn iawndal i hawlwyd o Irac.⁸ Mae diffyg ymchwiliad cynhwysfawr i'r honiadau am Irac yn golygu bod materion systemig - megis diffygion o ran polisi, hyfforddiant neu oruchwyliaeth - yn dal heb eu hymchwilio'n annibynnol.

Rydym yn pryderu am haeriadau yn codi o ymchwiliad y Sunday Times a BBC Panorama a ryddhawyd fis Tachwedd 2019 a oedd yn honni bod y Weinyddiaeth

⁴ Ar 23 Awst 2016, cyflwynodd y DU ateb ysgrifenedig ynghylch y modd yr oedd yn gweithredu argymhellion y Pwyllgor Hawliau Dynol ym mharagraffau 8 a 9 ei Arsyllwadau Terfynol (CCPR/C/GBR/CO/7, 21 Gorffennaf 2015). Cyhoeddodd y Pwyllgor Hawliau Dynol ei asesiad o ateb y DU ar 18 Ebrill 2018, gan asesu nad oedd ateb y DU o ran paragraff 9 (Atebolwydd am droseddau hawliau dynol a gyflawnwyd gan lluoedd Prydain dramor) yn foddhaol: [Adroddiad ar y cyflwyniad dilynol i arsyllwadau terfynol y Pwyllgor Hawliau Dynol, CCPR/C/122/3, 18 Ebrill 2018](#).

⁵ [Llywodraeth y DU \(2017\), 'IHAT table of work completed'. GOV.UK \[agorwyd: 11 Mai 2020\]](#).

⁶ [Llywodraeth y DU \(2019\), 'Service Police Legacy Investigations'. GOV.UK \[agorwyd: 11 Mai 2020\]](#).

⁷ [Llywodraeth y DU \(2019\), 'SPLI – quarterly update – 1 Oct 19 to 31 Dec 19'. GOV.UK \[agorwyd: 11 Mai 2020\]](#).

⁸ [Johnson, J. \(2019\), 'Lawyers behind "witch hunt" of British troops in Iraq paid £11m by Ministry of Defence', The Telegraph, 8 Ionawr 2019](#); [Ruck Keene, D. \(2017\), 'You win some, you lose some. Rahmatullah \(No. 2\) in the Supreme Court', gwefan UK Human Rights Blog, 24 Ionawr 2017 \[agorwyd: 11 Mai 2020\]](#).

Amddiffyn a rhai elfennau o'r Lluoedd Arfog wedi cuddio tystiolaeth o droseddau rhyfel, gan gynnwys cam-drin a lladd sifiliaid yn Irac, ac nad aethpwyd i'r afael â'r erlyniadau er gwaethaf tystiolaeth gredadwy bod troseddau wedi digwydd. Yn dilyn yr honiadau, a oedd yn dibynnu'n rhannol ar dystiolaeth o fewn IHAT, awgrymodd y Llys Troseddau Rhyngwladol (ICC) y gallai agor ymchwiliad ffurfiol i'r mater.⁹ Ers 2014, roedd yr ICC wedi bod yn cynnal archwiliadau rhagarweiniol o weithredoedd y DU yn Irac, gan gynnwys ystyried llawer o'r pryderon a amlinellwyd yn yr adroddiad yma.¹⁰

Fis Mawrth 2020, cyflwynodd Llywodraeth y DU yr Overseas Operations (Service Personnel and Veterans) Bill (o hyn allan, 'y Bil'), oedd â'r bwriad o greu rhagdybiaeth yn erbyn erlyniad' i bersonél milwrol y DU a gyhuddwyd o gyflawni troseddau, gan gynnwys artaith a chamdriniaeth, dramor.¹¹ Mae'r Bil yn haneru'r cyfyngiad amser ar gyfer dwyn erlyniad o'r deng mlynedd a arfaethwyd yn flaenorol i ddim ond pum mlynedd.¹² Cyflwynwyd y Bil er gwaethaf argymhelliad y Pwyllgor yn ei Arsylwadau Terfynol fis Mai 2019 i'r DU y dylai'r Wladwriaeth sy'n barti 'ymatal rhag sefydlu deddfwriaeth a fyddai'n caniatáu amnest neu bardwn yn achos artaith' ac 'y dylai hefyd sicrhau bod holl ddiodefwrwr artaith neu gamdriniaeth o'r fath yn cael iawndal'.¹³

Er gwaethaf ychydig iawn o erlyniadau o'r natur yma,¹⁴ a'r diogeliadau cyfreithiol oedd yn bodoli, dywedodd y Weinyddiaeth Amddiffyn mai nod y Bil oedd 'atal erlyniadau blinderus'.¹⁵ Rydym yn pryderu bod creu 'rhagdybiaeth yn erbyn

⁹ [BBC News \(2019\), 'International Criminal Court may investigate UK "war crimes cover-up"', gwefan BBC News, 18 Tachwedd 2019 \[agorwyd: 11 Mai 2020\].](#)

¹⁰ [International Criminal Court, 'Preliminary Examination: Iraq/UK'. Gwefan ICC \[agorwyd: 11 Mai 2020\].](#)

¹¹ [Overseas Operations \(Service Personnel and Veterans\) Bill \(HC Bill 117\).](#)

¹² [Ministry of Defence \(2019\), 'Legal protections for armed forces personnel and veterans serving in operations outside the United Kingdom'.](#)

¹³ [Committee against Torture \(2019\), 'Concluding observations', paragraff 33.](#)

¹⁴ [Llywodraeth y DU \(2017\), 'IHAT table of work completed'. GOV.UK \[agorwyd: 12 Mai 2020\]; European Center for Constitutional and Human Rights \(2019\), 'War crimes by UK forces in Iraq', 31 Gorffennaf 2019, tudalen 6.](#)

¹⁵ [Sengupta, K. \(2020\), 'Government to introduce 5-year limit on prosecuting armed forces for human rights abuses', gwefan Independent, 13 Mawrth 2020 \[agorwyd: 11 Mai 2020\].](#)

erlyniad' fel sefydlu statud cyfyngiadau - egwyddor yr ystyrir ei bod yn anghydnaws â'r fframwaith hawliau dynol rhyngwladol¹⁶ a chyfraith ryngwladol arferedig.¹⁷

Gallai'r 'ragdybiaeth yn erbyn erlyniad' hefyd fod yn anghydnaws â rhwymedigaethau'r DU o dan Erthygl 7 y Confensiwn yn erbyn Artaith (CAT) naill ai i erlyn neu i estraddodi unigolion lle ceir tystiolaeth o artaith a chamdriniaeth.¹⁸ O ganlyniad i fethiant i erlyn gartref, gallai personél y DU wynebu gael eu estraddodi gan Wladwriaethau eraill sy'n barti i'r CAT.¹⁹ Yn ogystal â hyn, mae'n bosibl y gallai'r ICC ymarfer ei awdurdodaeth o ran troseddau honedig y mae'r DU yn amharod i'w herlyn.²⁰

Mae'r Bil yn gwneud sawl eithriad na fyddai'r cyfyngiad amser pum-mlynedd yn berthnasol ar eu cyfer, gan gynnwys honiadau'n ymwneud â throseddau rhywiol, heb rhesymwaith eglur dros yr amrywiad yma.²¹ O ganlyniad, mae'r Bil yn cyflwyno system atebolrwydd dwy-haen i bob pwrpas, sy'n caniatáu i rai troseddau rhyfel neu droseddau yn erbyn y ddynoliaeth gael eu herlyn pan maent yn ymwneud â throseddau rhywiol, ond nid pan fyddant yn ymwneud â llofruddiaeth neu artaith.

Mae'r cynigion hefyd yn cynnwys diwygiadau i Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a deddfwriaeth arall. Byddai'r diwygiadau hyn yn cyfyngu ar ddisgresiwn y llysoedd i ddiystyru'r cyfyngiad amser ar gyfer hawliadau sifil gan gynnwys hawliad

¹⁶ Pwyllgor yn erbyn Artaith (2012), 'General comment no. 3: implementation of article 14 by states parties', paragraff 40 [agorwyd: 11 Mai 2020].

¹⁷ Gweler, er enghraifft, International Committee of the Red Cross (2005), Customary International Humanitarian Law Volume 1: Rules, Rule 158, tudalen 607. Cambridge: Cambridge University Press [agorwyd: 11 Mai 2020].

¹⁸ Llys Cyfiawnder Rhyngwladol (2012), 'Questions relating to the obligation to prosecute or extradite (Belgium v Senegal)', 20 Gorffennaf 2012, Rhestr Gyffredinol Rhif 144, paragraff 95: 'prosecution is an international obligation under the Convention, the violation of which is a wrongful act engaging the responsibility of the State.'

¹⁹ Freedom from Torture (2019), 'Response to MoD consultation on legal protections for armed forces personnel', tudalen 7.

²⁰ Ibid.

²¹ Overseas Operations (Service Personnel and Veterans) Bill (HC Bill 117), Cymal 6; Atodlen 1.

hawliau dynol²² a chais am iawndal am anaf personol neu farwolaeth yn codi o weithredu tramor.²³ Effaith y darpariaethau hyn fyddai pennu'r ffactorau y mae'n rhaid i'r llys eu hystyried wrth benderfynu a fyddent yn ymestyn y cyfyngiad amser ai peidio. Rhaid i'r ffactorau gynnwys y cyd-destun gweithredol ac effaith ar iechyd meddwl unrhyw dyst sydd, neu oedd ar adeg y digwyddiad, yn gwasanaethu yn y lluoedd arfog. Ni fyddai gan y llys ddisgresiwn i ymestyn y cyfyngiad amser y tu hwnt i chwe mlynedd o'r dyddiad perthnasol, neu flwyddyn o ddyddiad gwybodaeth am y digwyddiad.

Mae'r Bil hefyd yn cynnwys y gofyniad ²⁴ bod Llywodraeth y DU yn ystyried llacio'i afael ar y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR), dan Erthygl 15,²⁵ o ran rhai gweithrediadau tramor yn y dyfodol, a fyddai'n eithrio personél milwrol o'r rhwymedigaeth i weithredu o fewn terfynau safonau hawliau dynol rhyngwladol. Prin yw'r manylion yn y Bil sy'n dangos o dan ba amgylchiadau y byddai'r cymal llacio gafael yn berthnasol, a phryd y byddai'r Llywodraeth yn ystyried y llacio gafael hwn yn gam 'priodol'. Hyd yma, nid oes yr un Wladwriaeth sy'n aelod erioed wedi llacio gafael fel hyn o'r blaen, ac fel y cyfryw nid oes unrhyw ateb eglur i gwestiynau sy'n codi ynghylch perthnasedd Erthygl 15 i weithredu milwrol sy'n digwydd dramor a thu allan i awdurdodaeth diriogaethol yr ECHR. Hefyd, mae'r cynigion i lacio gafael yn debygol o effeithio ar orfodiad y cyfan o'r hawliau a'r gwarantau sydd yn yr ECHR.

²² [Ibid., Cymal 11.](#)

²³ [Ibid., Atodlen 2.](#)

²⁴ [Ibid., Cymal 12.](#)

²⁵ [European Convention on Human Rights, Article 15: derogation in times of emergency.](#)

Ymhlith y meysydd pryder eraill mae rhwystrau i gymhwysiad ymarferol y rheolau hyn,²⁶ canlyniad gosod safonau anghyson ar draws cyfraith droseddol a sifil,²⁷ a'r anghydnawsedd tebygol ag Erthyglau 2²⁸ a 3²⁹ y ECHR.

Mae'r DU yn aelod parhaol o Gyngor Diogelwch y CU ac yn un o arweinyddion y system ryngwladol sy'n seiliedig ar reolau. Mae darpariaethau'r Bil, fodd bynnag, yn peryglu enw da y DU yn rhyngwladol, a gallai osod cynsail peryglus i wledydd eraill o amgylch y byd. Mae cynigion y Bil yn dod yn yr un flwyddyn ag y mae'r DU yn ceisio cael ei haillethol i'r Cyngor Hawliau Dynol (HRC), ac ar yr un pryd ag y mae Gweinidog Gwladol Llywodraeth y DU dros y CU yn galw i'r DU ddod â chyfiawnder i'r rheiny sy'n gyfrifol am y troseddau mwyaf difrifol o bryder rhyngwladol.³⁰ Mae cynigion y Bil sy'n dangos amrywiad i'r egwyddorion sylfaenol hyn o gyfiawnder rhyngwladol yn destun pryder. Trwy barhau â'r cynigion hyn, mae'r DU mewn perygl o annog caniatáu i artaith a chamdriniaeth fod yn droseddau digerydd ac o gyfrannu at erydiad normau hirhoedlog yn y maes yma.

²⁶ Gweler ymateb Cymdeithas y Gyfraith i ymgynghoriad y Weinyddiaeth Amddiffyn. Law Society (2019), '[Legal protections for armed forces personnel and veterans serving in operations outside the UK – Law Society response](#)', gwefan Law Society, 11 Hydref 2019 [agorwyd: 11 Mai 2020].

²⁷ [Ibid.](#)

²⁸ [McCann and Others v UK \(27 September 1995\) \[European Court of Human Rights, Cais rhif 18984/91\], paragraff 161](#): wrth ddarllen Erthygl 2 mewn cysylltiad ag Erthygl 1, mae rhwymedigaeth ar y Wladwriaeth i gynnal ymchwiliad pan mae unigolion wedi'u lladd gan asiantau'r wladwriaeth yn defnyddio grym. [Marquš v Croatia \(27 Mai 2014\) \[European Court of Human Rights, Cais rhif 4455/10\], paragraff 127](#): 'Byddai caniatáu amnest o ran lladd a cham-drin sifiliaid yn mynd yn groes i rwymedigaethau'r Wladwriaeth dan Erthyglau 2 a 3 y Confensiwn oherwydd byddai'n rhwystro'r ymchwiliad i weithredoedd o'r fath ac yn golygu y byddai'r rheiny sy'n gyfrifol yn ddigerydd.'

²⁹ [Cestaro v Italy \(7 Gorffennaf 2015\) \[European Court of Human Rights, Cais rhif 6884/11\], paragraff 208](#); [Berganovic v Croatia \(25 Medi 2009\) \[European Court of Human Rights, Cais rhif 46423/06\], paragraff 71](#).

³⁰ [Lord Tariq Ahmad of Wimbledon \(2 Rhagfyr 2019\), 'Assembly of States Parties of the International Criminal Court 2019: Lord Ahmad's statement'](#). GOV.UK [agorwyd: 11 Mai 2020].

2.2 Cydgynllwynio yng nghamdriniaeth carcharorion llywodraethau eraill

Ni chynhaliwyd eto ymchwiliad annibynnol cynhwysfawr i honiadau o artaith neu gamdriniaeth carcharorion llywodraethau eraill y mae asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth y DU yn gysylltiedig â nhw, gan gynnwys trwy gydgynllwynio. Yn dilyn cau ymchwiliad Gibson yn gynnar yn 2013, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am ymchwilio i'r honiadau i Bwyllgor Cudd-wybodaeth a Diogelwch Senedd y DU (ISC), y beirniadwyd eu cynnydd araf gan y Pwyllgor Hawliau Dynol yn 2015.³¹

O'r diwedd ym mis Mehefin 2018, cyhoeddodd yr ISC ei ddarganfyddiadau.³² Nododd ISC fod ei ymchwiliad yn gyfyngedig oherwydd cyfyngiadau Llywodraeth y DU ar holi tystion am achosion penodol. Ar sail y dystiolaeth a oedd ar gael, casglodd yr ISC yn amodol bod personél diogelwch a chudd-wybodaeth y DU naill ai wedi bod yn dystion i gam-drin mewn cannoedd o gyfweiliadau a gynhaliwyd gan yr Unol Daleithiau, neu eu bod wedi cael gwybod amdanynt, ond eu bod wedi parhau i gydweithredu â'r cyfweilwyr hyn. Cawsant hefyd fod y DU wedi hwyluso dros 70 o achosion o drosglwyddo pobl i wlad arall er mwyn osgoi deddfau'r wlad wreiddiol ynghylch y troseddau, rhwng 2001 a 2010.³³ Er gwaethaf y darganfyddiadau hyn, fe gyhoeddodd Llywodraeth y DU fis Gorffennaf 2019 na fyddai'n cynnal ymchwiliad i ymwneud y DU â throsglwyddo pobl i wlad arall ac arteithio.³⁴ Fis Hydref 2019, lanswyd her gyfreithiol i'r penderfyniad hwn.³⁵

³¹ [Human Rights Committee \(2015\), 'Concluding observations', paragraff 9 \[agorwyd: 12 Mai 2020\].](#)

³² [Intelligence and Security Committee of Parliament \(2018\), *Detainee Mistreatment and Rendition: 2001–2010*.](#)

³³ [Ibid.](#)

³⁴ [House of Commons Hansard \(2019\), 'Detainees: The Chancellor of the Duchy of Lancaster and Minister for the Cabinet Office \(Mr David Lidington\)', 18 Gorffennaf 2019, cyf. 663, colofn 973 \[agorwyd: 12 Mai 2020\].](#)

³⁵ [Reprieve \(2019\), 'MPs and Reprieve take Government to court over refusal to hold torture inquiry', gwefan Reprieve, 10 Hydref 2019 \[agorwyd: 12 Mai 2020\].](#)

2.3 Canllawiau wedi'u cydgrynhoi

Yn ei adroddiad yn 2018 ar gam-drin a throsglwyddo carcharorion, adleisiodd yr ISC alwadau gan y CU a rhanddeiliaid gartref ar i Lywodraeth y DU egluro agweddau ar ei 'ganllawiau wedi'u cydgrynhoi i swyddogion gwybodaeth a phersonél y lluoedd arfog ar garcharu a chyfweld carcharorion dramor'. Yn benodol, galwodd yr ISC am ddileu'r amwysedd ynghylch y rhwymedigaeth i ddirwyn i ben yr ymgysylltiad â gwasanaethau diogelwch a gwybodaeth estron, pa un bynnag, os oes perygl o artaith.³⁶

Atebodd y Prif Weinidog ar y pryd, Theresa May, trwy alw ar Rymoedd Ymchwiliol Swyddfa'r Comisiynydd (IPCO) i gynnig ffordd o wella'r canllawiau wedi'u cydgrynhoi, 'gan ystyried barn yr ISC a barn y gymdeithas sifil'.³⁷ Lansiodd y IPCO ymgynghoriad fis Awst 2018 a derbyniodd gyfraniadau gan nifer o randdeiliaid. Fis Gorffennaf 2019, cyhoeddodd Llywodraeth y DU fersiwn diwygiedig o'r canllawiau wedi'u cydgrynhoi,³⁸ ac adroddwyd ei bod yn derbyn egwyddorion arfaethedig yr IPCO yn llawn.³⁹ Gan na chyhoeddwyd drafft yr IPCO o'r egwyddorion arfaethedig, mae'n amhosibl cadarnhau a wnaed unrhyw newidiadau i'r drafft ai peidio.⁴⁰ Fodd bynnag, nid yw'r adolygiadau a gyflwynwyd yn mynd i'r afael yn ddigonol â'n pryderon ynghylch y rhwymedigaeth i ddirwyn i ben yr ymgysylltiad lle mae perygl o artaith: mae'r canllawiau a ddiweddarwyd yn cynnwys dim ond 'rhagdybiaeth' yn erbyn mynd ymlaen lle mae 'peryl go iawn'

³⁶ [Intelligence and Security Committee of Parliament \(2018\), *Detainee Mistreatment and Rendition: 2001–2010*](#).

³⁷ [UK Parliament \(2018\), 'ISC detainee reports: written statement – HCWS808', 28 Mehefin 2018 \[agorwyd: 12 Mai 2020\]](#).

³⁸ [HM Government \(2019\), 'The principles relating to the detention and interviewing of detainees overseas and the passing and receipt of intelligence relating to detainees'](#).

³⁹ [UK Parliament \(2019\), 'Review of consolidated guidance: written statement – HCWS1738', 18 July 2019 \[agorwyd: 12 Mai 2020\]](#).

⁴⁰ [Er bod llythyr gan yr IPCO dyddiedig 12 Mehefin 2019 wedi'i gyhoeddi, ni atodwyd yr 'Egwyddorion diwygiedig awgrymedig' y cyfeiriwyd atynt yn y llythyr hwnnw, ac nid ydynt wedi bod ar gael yn gyhoeddus. IPCO \(2019\), 'Letter to the Prime Minister on the proposals to review the consolidated guidance', 12 June 2019 \[agorwyd: 12 Mai 2020\]](#).

o artaith, lladd anghyfreithlon neu drosglwyddo i wlad arall er mwyn osgoi wynebu cyfreithiau'r wlad wreiddiol ar holi, carcharu a charcharu am y drosedd.⁴¹

2.4 Argymhellion

Honiadau o gam-drin gan filwyr Prydain dramor a chydgyllwyniad i gam-drin carcharorion llywodraethau eraill

Dylai Llywodraeth y DU:

- Dynnu'n ôl gynigion deddfwriaethol am ragdybiaeth statudol yn erbyn erlyn personél milwrol cyfredol neu flaenorol mewn achosion lle ceir honiadau o artaith neu gamdriniaeth. Rhaid i'r cynigion diwygiedig fod yn gwbl gydnaws â rhwymedigaethau'r DU o dan y fframwaith hawliau dynol domestig a rhyngwladol, gan gynnwys y Confensiwn yn erbyn Artaith.
- Ailystyried ei benderfyniad i beidio â sefydlu ymchwiliadau annibynnol cyflawn dan arweiniad barnwr i honiadau o artaith a gyflawnwyd gan bersonél milwrol Prydain yn Irac rhwng 2003 a 2009, ac i honiadau o gydgyllwyniad milwyr Prydain, gan gynnwys trwy gydgyllwynio, o ran cam-drin carcharorion llywodraethau eraill. Dylai unrhyw ymholiadau allu sicrhau tystiolaeth berthnasol er mwyn dal y tramgwyddwyr honedig i gyfrif, a dylent archwilio problemau systemig er mwyn i'r gwersi a ddysgir allu darparu gwybodaeth ar gyfer ymddygiad yn y dyfodol.

Canllawiau wedi'u cydgrynhoi

Dylai Llywodraeth y DU:

- Gyhoeddi egwyddorion arfaethedig drafft Pwerau Ymchwiliol Swyddfa'r Comisiynydd i wella'r canllawiau wedi'u cydgrynhoi.
- Diwygio'r canllawiau diwygiedig i sicrhau bod personél gwybodaeth a diogelwch Prydain yn dirwyn i ben unrhyw ymgysylltiad â charcharorion

⁴¹ [HM Government \(2019\), 'The principles'](#).

Prydain a'r Confensiwn yn erbyn Artaith

gwasanaethau gwybodaeth estron, pa un bynnag os oes perygl o artaith neu gamdriniaeth.

3. Rhoi'r Arsyllwadau Terfynol ar waith yn gyffredinol.

Yn ei gais am wybodaeth ddilynol, gofynnodd y Pwyllgor i'r Wladwriaeth sy'n barti 'roi gwybod i'r Pwyllgor am ei chynlluniau i roi ar waith, o fewn y cyfnod adrodd sydd ar ddod, rhai neu bob un o'r argymhellion sy'n weddill o'r Arsyllwadau Terfynol.'⁴²

3.1 Mekanwaith Cenedlaethol ar gyfer Gweithredu, Adrodd a rhoi Camau Dilynol ar waith

Am beth amser, rydym wedi dadlau y dylai'r DU sefydlu Mekanwaith Cenedlaethol ar gyfer Gweithredu, Adrodd a rhoi Camau Dilynol ar waith (NMIRF), er mwyn gweithredu'r darpariaethau a'r argymhellion sy'n deillio o system hawliau dynol y CU yn effeithiol ac yn effeithlon.

Yn dilyn Adolygiad Cyfnodol Cyffredinol y DU (CPR) yn 2017, argymhellodd Uchel Gomisiynydd y CU dros Hawliau Dynol bod y DU yn sefydlu NMIRF. Byddai corff o'r fath yn sicrhau dull cydgysylltiedig, effeithiol o adrodd i adolygiadau hawliau dynol ac ymgysylltu â hwy, a darparu mekanwaith atebolrwydd cryfach i oruchwylio gweithrediad rhwymedigaethau'r DU o ran hawliau dynol.⁴³ Adleisiwyd y galw yma gan nifer o gyrff cytuniadau'r CU, yn

⁴² [Pwyllgor yn erbyn Artaith \(2019\), 'Concluding observations', paragraff 66.](#)

⁴³ Cynhaliodd Swyddfa'r Uchel Gomisiynydd Hawliau Dynol astudiaeth fyd-eang i greu mekanweithiau cenedlaethol (a gyhoeddwyd yn 2016), yn nodi amrediad eang o ddulliau arloesol gan wledydd ledled y byd. Er nad oes unrhyw ddull 'un maint i bawb', fe nododd yr astudiaeth nifer o ddeilliannau cyffredin: gwella cynaliadwyedd arbenigedd a strwythurau domestig, cynorthwyo deialog gynhwysol a chyfranogol ar draws amrywiol garfanau a chryfhau'r craffu ar ddeddfwriaeth a pholisi. [UN Office of the High Commissioner for Human Rights](#)

ogystal â rhanddeiliaid domestig, fel Pwyllgor Dethol Merched a Chydraddoldeb Senedd y DU (WESC)⁴⁴ a Phwyllgor Cydraddoldebau a Hawliau Dynol Senedd yr Alban.⁴⁵

Er gwaethaf hyn, hyd yma ni fu gan Lywodraeth y DU yr ewyllys gwleidyddol i fynd ati i ateb yr alwad am ragor o weithredu, cyhoeddi cynlluniau gweithredu ar argymhellion y CU, ac agwedd fwy cydgyssylltiedig tuag at fonitro, adrodd a gweithredu. Fodd bynnag mae diddordeb ymhlith y llywodraethau datganoledig i gryfhau diogeliadau hawliau dynol a fframweithiau atebolrwydd.⁴⁶

Fis Tachwedd 2018, argymhellodd Pwyllgor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Senedd yr Alban, y dylid fel blaenoriaeth ar unwaith, sefydlu 'mecanwaith yn yr Alban ar gyfer gweithredu, adrodd a rhoi ar waith camau dilynol, wedi'u modelu ar y NMIRF a argymhellir gan y CU'.⁴⁷ Gwnaeth Grwp Cynghori Prif Weinidog yr Alban ar Arweinyddiaeth Hawliau Dynol yr un argymhelliad⁴⁸ a sefydlwyd Tasglu Hawliau Dynol Cenedlaethol i fynd â hyn ac argymhellion y Grwp Cynghori ymhellach (yn enwedig yr argymhellion ynghylch ymgorffori cytuniadau hawliau dynol). Mae'r EHRC a'r SHRC ill dau yn aelodau o'r tasglu yma.

Yng Nghymru, fe wnaethom ymgysylltu ag ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i hawliau plant, gan ailadrodd ein galwadau ar i Lywodraeth Cymru sefydlu NMIRF. Er na chyhoeddwyd argymhellion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg hyd yma, mae rhanddeiliaid eraill wedi adleisio'r angen i gryfhau

(2016), National Mechanisms for Reporting and Follow-up: A Study of State Engagement with International Human Rights Mechanisms.

⁴⁴ Women and Equalities Committee (2019), 'Letter to the UN Committee on the elimination of discrimination against women, concerning the UK's review', 23 Ionawr 2019.

⁴⁵ Scottish Parliament Equalities and Human Rights Committee (2018), Getting Rights Right: Human Rights and the Scottish Parliament, 26 Tachwedd 2018, Papur Senedd yr Alban 431, paragraff 129.

⁴⁶ Gweler, er enghraifft, araith y Dirprwy Weinidog, Jane Hutt AC, yn ystod trafodaeth y Cynulliad ar Adolygiad Blynyddol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2018–19 (25 Chwefror 2020).

⁴⁷ Scottish Parliament Equalities and Human Rights Committee (2018), Getting Rights Right, paragraff 129.

⁴⁸ First Minister's Advisory Group on Human Rights Leadership (2018), Recommendations for a New Human Rights Framework to Improve People's Lives – Report to the First Minister, 10 Rhagfyr 2018, Argymhelliad 4.

atebolrwydd ac effeithiolrwydd wrth gynnal y fframwaith hawliau dynol rhyngwladol yng Nghymru.

Os yw'r DU i gadw ei enw da fel arweinydd ym maes hawliau dynol ar lefel rhyngwladol, dylai sefydlu NMIRF ar fyrder fel blaenoriaeth.

3.2 Ein hymagwedd

Hyd yma, mae ein hymdrechion i bwysu am fecanweithiau atebolrwydd cryfach wedi canolbwyntio ar dri phrif faes:

- Ein System Tracio Hawliau Dynol⁴⁹: offeryn ar-lein sy'n casglu holl argymhellion y CU i'r DU ar fformat hygyrch a chwiliadwy. Mae'r system tracio'n cynyddu ymwybyddiaeth o rwymedigaethau'r DU o ran hawliau dynol, ac yn helpu defnyddwyr i fonitro pa mor dda y mae'r hawliau'n cael eu gweithredu.
- Gweithgor Monitro Cytuniadau: yn cynnull at ei gilydd swyddogion Llywodraeth y DU o wahanol adrannau, sydd â chyfrifoldeb am adrodd ar gytuniadau a'u gweithredu. Mae hyn hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Cydbwyllgor ar Hawliau Dynol/WESC a'r Mekanwaith Ataliol Cenedlaethol. Mae'r Gweithgor yn cyfarfod bob chwarter i rannu arfer gorau, i drafod rwymedigaethau adroddiadau sydd ar fin cael eu cyhoeddi ac ystyried cynnydd tuag at eu rhoi ar waith.
- Adnabod cyfleoedd i ymgysylltu llywodraeth y DU a'r llywodraethau a'r seneddau datganoledig â'n galw am NMIRF, a dylanwadau ar gyrff y CU i ailadrodd hyn yn eu hargymhellion.

Ein pryder yw, na fydd Llywodraethau'r DU a Chymru yn gallu ymateb yn effeithiol i argymhellion y Pwyllgor ac argymhellion cyrff hawliau dynol eraill heb oruchwyliaeth ystyrlon o'r gweithrediad. Bydd diogeliad hawliau dynol ym Mhrydain Fawr yn parhau i gael ei danseilio gan y methiant yma.

⁴⁹ [EHRC, 'Human Rights Tracker'. gwefan EHRC website \[agorwyd: 12 Mai 2020\].](#)

A'r DU yn ceisio cael ei ailethol i'r HRC yn 202,⁵⁰ rhaid i Lywodraeth y DU ymgysylltu ag arfer gorau rhyngwladol a dangos uchelgais domestig ynghylch hawliau dynol lle bu diffyg.⁵¹ Rydym yn parhau i annog yn daer Lywodraethau'r DU a Chymru i ymgorffori cytuniadau hawliau dynol rhyngwladol, gan gynnwys CAT, yn eu cyfreithiau domestig, er mwyn rhoi ar waith argymhellion y CU a diogelu pobl yn y ffordd orau bosibl.

3.3 Argymhellion

Er mwyn cryfhau'r ymrwymiad i'r fframwaith hawliau dynol rhyngwladol, a sicrhau dull di-fwlch o weithredu rhwymedigaethau'r DU ar lefel ddomestig, rydym yn parhau i argymhell:

- Bod Llywodraethau'r DU a Chymru yn sefydlu mecanweithiau cenedlaethol cynhwysfawr ar gyfer monitro ac adrodd ar gynnydd a sicrhau gweithrediad y UPR ac argymhellion cyrff cytuniad.
- Y dylai llywodraethau'r DU a Chymru ymgorffori cytundebau hawliau dynol rhyngwladol mewn cyfraith ddomestig, fel y gall unigolion herio troseddau hawliau yn effeithiol gan ddefnyddio'r system gyfreithiol ddomestig a defnyddio camau unioni domestig ar gyfer achosion honedig o dorri eu hawliau.

⁵⁰ [UK Government \(2019\), Datganiad i'r Wasg: UK to stand for re-election to Human Rights Council, 25 Chwefror 2019. GOV.UK \[agorwyd: 12 Mai 2020\].](#)

⁵¹ [Gweler addunedau Llywodraeth y DU wrth ymgeisio i gael ei haillethol i'r HRC. UK Government \(2020\), 'UN Human Rights Council – United Kingdom – 2021–23 Candidate'.](#)

Cysylltiadau

Mae'r cyhoeddiad hwn ac adnoddau cydraddoldeb a hawliau dynol cysylltiedig ar gael [o'n gwefan](#).

Gellir cyfeirio cwestiynau a sylwadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn at correspondence@equalityhumanrights.com. Rydym yn croesawu'ch adborth.

I gael gwybodaeth am gyrchu ein cyhoeddiadau mewn fformat arall, cysylltwch â: correspondence@equalityhumanrights.com.

Dewch o hyd i'n newyddion, digwyddiadau a chyhoeddiadau diweddaraf trwy [gofrestru i dderbyn ein e-gylchlythyr](#).

Gwasanaeth Cyngori a Chymorth Cydraddoldeb (EASS)

I gael cyngor, gwybodaeth neu arweiniad ar faterion cydraddoldeb, gwahaniaethu neu hawliau dynol, cysylltwch â'r [Gwasanaeth Cyngori a Chymorth Cydraddoldeb](#), gwasanaeth annibynnol ac am ddim.

Ffôn 0808 800 0082

Ffôn testun 0808 800 0084

Oriau 09:00 i 19:00 (Dydd Llun i Ddydd Gwener)

10:00 tan 14:00 (Sadwrn)

Post FREEPOST EASS HELPLINE FPN6521

Cyhoeddwyd Mai 2020

ISBN: 978-1-84206-828-1



Comisiwn
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol

Equality and
Human Rights
Commission